# Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

## 12 Rhagfyr 2022

## Pn(6)004 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

### Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("y Rheoliadau Gwreiddiol"). Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y canlynol:

- Dirymu'r Rheoliadau Gwreiddiol, ac
- Ail-wneud y diwygiadau perthnasol o ran gweithredadwyedd i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Ydyn

**Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**